***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 2

## YMHOLIADAU GAN Y COMISIYNYDD

### *Cylch gorchwyl*

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw'r cylch gorchwyl yn ymwneud â pherson penodol neu gategori o berson.

(2) Rhaid i'r cylch gorchwyl bennu'r person hwnnw neu'r categori o berson.

(3) Cyn setlo'r cylch gorchwyl, rhaid i'r Comisiynydd—
- (a) hysbysu pob person perthnasol o'r cylch gorchwyl arfaethedig,
- (b) rhoi cyfle i bob person perthnasol gyflwyno sylwadau am y cylch gorchwyl arfaethedig, ac
- (c) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.

(4) Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl (ac yntau wedi cydymffurfio ag is-baragraff (3)), rhaid i'r Comisiynydd—
- (a) cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymholiad mewn modd sydd yn nhyb y Comisiynydd yn debygol o ddwyn yr ymholiad i sylw personau y mae a wnelo'r ymholiad â hwy, neu sy'n debygol o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant ynddo, a
- (b) hysbysu'r canlynol am y cylch gorchwyl—
  - (i) pob person perthnasol, a
  - (ii) Gweinidogion Cymru.

(5) Yn y paragraff hwn ystyr "person perthnasol" yw—
- (a) person a bennir yng nghylch gorchwyl ymholiad, a
- (b) o ran categori o bersonau a bennir yng nghylch gorchwyl ymholiad, pob person y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn dod o fewn y categori hwnnw.